Cyngor Cymuned Dolbenmaen
Ms Eleri Davies – Clerc
Cartrefle, Bryncir, Gwynedd. LL51 9LX
Rhif ffôn 07557125477
E-bost Cyngordolbenmaen@outlook.com

Rheolau Claddu Cyngor Cymuned Dolbenmaen – dyddiedig 18 Mawrth 1999 (adolygwyd 4ydd Mawrth 2004, 4ydd Hydref 2007, 3ydd Gorffennaf 2008, 7fed Mai 2009, 7fed o Ebrill 2016, a'r 6ed Hydref 2022).

Rheolir y Mynwentydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 a Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 yn ogystal ag unrhyw orchymyn a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfanswm o 5 Mynwent o dan ofal Cyngor Dolbenmaen sef:

1. Mynwent Bethel, Penmorfa (Golan)
2. Mynwent Prenteg
3. Mynwent Tynllan, Penmorfa
4. Mynwent Uwch y Llyn, Pentrefelin
5. Mynwent Pennant, Cwm Pennant

I gael yr hawl i gladdu yn un o Fynwentydd y Cyngor, rhaid cydymffurfio â'r rheolau isod.

Rheolau

1. Dyma'r rhai sydd â'r hawl i'w claddu ym mynwentydd Cyngor Cymuned Dolbenmaen:

   (a) Pobl sydd yn etholwyr, a'u Priod (neu Gymar), ac yn byw yng Nghymuned Dolbenmaen.
   (b) Pobl a'u Priod (neu Gymar) sydd wedi bod yn byw yn y Gymuned am gyfnod o **bum mlynedd neu fwy.**
   (c) Plant o dan 18 oed sydd wedi eu magu yn y Gymuned, neu blant o dan 18 oed i rieni a gynhwysir yn rhif 1(a) neu 1(b) uchod.
   (ch) Mewn amgylchiadau arbennig cynhelir Is-bwyllgor Apêl i gynnwys un aelod o bob ward ynghyd â'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd gydag isafswm o 6 aelod.

2. Ni chaniateir prynu bedd cadw/man claddu llwch cadw.

3. Ni chaniateir i berchennog bedd cadw ei werthu i unrhyw un oddigerth i'r Cyngor.

4. Ni chaniateir dewis unrhyw fan claddu arbennig.

5. Ni werthir bedd newydd i unrhyw bwrpas oddigerth i gladdu corff/neu gladdu llwch, yn unol â rheolau 1(a) i (ch)

6. Mewn rhai mynwentydd, mae plotiau ar gael yn benodol ar gyfer claddu llwch a marw-anedig.

7. Caniateir claddu llwch mewn bedd teuluol.

8. Ni chaniateir gwasgaru llwch yn y mynwentydd.

<u>Trefnu Claddedigaeth</u>

I gael yr hawl i gladdu yn un o Fynwentydd y Cyngor, rhaid cydymffurfio â'r rheolau uchod. Y Cyngor sydd â'r hawl i ganiatáu claddedigaeth. Gwneir hyn drwy gysylltu â'r Clerc. Bydd y Clerc wedyn yn ymgynghori gyda Chynghorydd/wyr y ward berthnasol. Os nad yw'r aelod(au) lleol yn hapus/cytuno i ganiatáu agor bedd newydd, yna gwneir y penderfyniad gan y Cadeirydd ac mae ganddo/ganddi'r hawl i roi caniatâd neu alw Cyfarfod Brys i drafod y mater.

1 Yr ymgymerwr sydd yn gyfrifol am sicrhau yswiriant atebolrwydd dilys i gynnwys unrhyw un sydd yn gweithio ar ei ran ym mynwentydd y plwyf.

2 Bydd yn angenrheidiol rhoddi Rhybudd o Gladdedigaeth i Glerc Cyngor Cymuned Dolbenmaen drwy gyfrwng neges e-bost **dri** diwrnod o leiaf cyn y gladdedigaeth, oddieithr mewn achosion o frys dan dystysgrif meddyg. Dylid cyflwyno'r rhybudd drwy ddefnyddio'r ffurflen swyddogol a gymeradwywyd gan y Cyngor Cymuned.

3 Ar ôl derbyn caniatâd i gynnal claddedigaeth, rhaid i'r ymgymerwr yrru tystysgrif cofrestru marwolaeth neu orchymyn, neu dystysgrif gan Grwner os cynhaliwyd cwest, at y Clerc. Ar ôl y gladdedigaeth, bydd y Clerc yn gyrru anfoneb at yr ymgymerwr.

4 **SYLWER OS GWELWCH YN DDA** Os bwriedir cynnal claddedigaeth ym Mynwent Uwch y Llyn, Pentrefelin, rhaid hefyd hysbysu'r tirfeddiannwr lleol sef Llifon Jones drwy gyfrwng neges ffôn i'r rhif canlynol - 07881681903 - **dri** diwrnod cyn y gladdedigaeth.

5 Rhaid cydymffurfio gyda Deddf Gwlad parthed amserau claddu.

6 Bydd yn ofynnol cyflwyno caniatâd ysgrifenedig prynwr unrhyw fedd (neu gynrychiolydd awdurdodedig) cyn y gellir claddu mewn bedd cadw, - hyn yn ychwanegol i'r ffurflen a gymeradwywyd gan y Cyngor.

7 Rhaid caniatáu o leiaf 2 awr rhwng pob angladd mewn mynwent.

<u>Beddau – Gwybodaeth i'r Ymgymerwyr</u>

1 Maint arferol i fedd oedolyn yw 8 troedfedd o hyd, 4 troedfedd o led a hyd at 8 troedfedd o ddyfnder, os yw'n fedd ar gyfer 3 claddedigaeth.

Maint beddau claddu gweddillion amlosgedig – un llathen sgwâr, dwy droedfedd o ddyfnder gyda lle ynddo i bedair cist.

Bedd Marw-anedig - un llathen sgwâr hyd at ddwy droedfedd o ddyfnder.

2 Mae cyfrifoldeb am fedd ar yr ymgymerwr o'r adeg yr agorir y bedd hyd nes y caeir y bedd ar ôl yr angladd.

3 Bydd unrhyw un sy'n agor neu gau bedd yn gyfrifol am unrhyw niwed a achosir wrth wneud y gwaith hwnnw ac mae'n orfodol iddo feddu ar dystysgrif yswiriant ddilys a digonol. Cyfrifoldeb yr ymgymerwr angladdau yw gwirio manylion y dystysgrif yswiriant.

4 Ni chaniateir agor bedd yn gynharach na thri diwrnod i ddyddiad y gladdedigaeth.

5 Ni chaniateir gweithio, (gan gynnwys agor a chau bedd), tra bo angladd yn cymryd lle yn y fynwent.

6 Gwaherddir ymgymerwr rhag defnyddio peiriannau tyllu trymion o fewn y mynwentydd. Ceir hawl i agor ac ail-agor gyda chloddiwr bach (o dan 1 ½

tunnell) gan ddefnyddio synnwyr cyffredin.  Os daw cwynion i law bydd yr hawl yn cael ei dynnu'n ôl yn syth.

7 Wrth agor pob bedd, dylid cadw'r pridd da (topsoil) a thywyrch glaswellt i un ochr, a dylid rhoi'r pridd da yn ôl ar wyneb y bedd wrth ei gau.

8 Wrth ail agor bedd bydd yn ofynnol i'r ymgymerwr drefnu i symud carreg neu gofeb un ai allan o'r fynwent neu ei gosod mewn man diogel.

9 Mae pob ymgymerwr, neu ei asiant, sydd yn agor unrhyw fedd, yn gyfrifol am dacluso ar ei ôl a chludo unrhyw bridd a cherrig na ddefnyddir i gau'r bedd o'r fynwent o fewn wythnos i ddyddiad yr angladd.  Oni wneir hyn, gall y Cyngor wneud y gwaith ac adennill y costau oddi wrth yr ymgymerwr.

10 Tra bo bedd yn agored mae'n angenrheidiol ei orchuddio gyda defnydd addas i atal unrhyw berson rhag syrthio i'r twll.

11 Wrth agor pob bedd, bydd yn rhaid gwneud y gwaith fel a ganlyn (gan gynnwys beddi ar gyfer arch eco gyfeillgar bio-ddiraddadwy) – bydd y torrwr beddi yn gosod slabiau yn wastad ar hyd gwaelod y bedd, gan adeiladu dau gwrs o flociau ar hyd yr ochrau, y pen a'r traed i roi uchder o 18 modfedd, yna bydd slabiau concrid yn cael eu gosod ar ben y blociau i ffurfio "vault" gref.  Rhaid i'r gwaith gydymffurfio gyda Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 Erthygl 10 Atodlen 2.

12 Ar gyfer ail gladdedigaeth mewn bedd, rhaid sicrhau bod haen o bridd o leiaf 6" yn ei wahanu oddi wrth yr arch a gladdwyd yn y bedd yn flaenorol.

13 Ni chaniateir llai na 2 droedfedd o bridd uwchben yr arch olaf o wyneb y tir.

14 Rhaid sicrhau bod y pridd a roddir yn y bedd i'w gau yn ddigon cadarn fel na fydd y tir yn suddo.

15 Os bydd ymgymerwr yn torri unrhyw un o'r rheolau uchod gall hyn effeithio ar ei hawl i gael claddu yn holl fynwentydd y Cyngor.

Gwybodaeth i deuluoedd sy'n dymuno gwneud trefniadau angladdol

1 Bydd rhaid dilyn y canllawiau a nodir yn yr adran Trefnu Claddedigaeth.

2 Bydd angen defnyddio torrwr bedd a achredwyd gan y Cyngor Cymuned.

3 Bydd angen trefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

4 Bydd angen tystysgrif gan wneuthurwr yr arch.

Carreg Bedd

Gwybodaeth i'r Saer Maen

1 Bydd yn rhaid anfon cynllun a disgrifiad o bob cofeb at y Clerc ar ffurflen **Cais i godi neu ail-osod cofeb** i'w ystyried gan y Cyngor. Gweler isod am faint y cofebion a ganiateir.

2 Mae'n ofynnol i bob person sydd yn gweithio ar gofeb, boed yn trwsio neu'n gosod, fod yn brofiadol a chael tystysgrif yswiriant ar gyfer y gwaith.

3 Bydd angen caniatâd y Cyngor cyn symud neu osod carreg. Dylid gwneud hynny drwy anfon neges e-bost i'r Clerc.

4 Ni chaniateir naddu cerrig oddi mewn i'r fynwent.

5 Bydd yn rhaid defnyddio 'spike' neu roden bwrpasol i angori carreg fedd.

6 Wrth osod carreg, rhaid i'r gosodwr glirio'r rwbel sydd yn weddill allan o'r fynwent. Rhaid gosod tywyrch glaswellt yn daclus ar y bedd ar ôl gosod carreg.

7 Ni chaniateir unrhyw waith tra bo angladd yn cymryd lle yn y fynwent.

Gwybodaeth i'r Teulu

1 Dylai mesuriadau pob cofeb fod fel a ganlyn –

**Cofeb ar fedd** - dim mwy na 3 troedfedd o uchder o wyneb y tir a dim mwy na 3 troedfedd ar draws.
**Cofeb bedd llwch** - dim mwy na 2 troedfedd o wyneb y tir a dim mwy na 18 modfedd ar draws.
**Cofeb marw-anedig** - dim mwy na 2 troedfedd o wyneb y tir a dim mwy na 18 modfedd ar draws.

2 Cofeb lawnt fydd ar bob plot newydd yn holl fynwentydd y Cyngor. Ni chaniateir gosod ymylfeini o gwmpas safle'r bedd.

3 Os nad oes lle ar gofeb i ychwanegu enw caniateir gosod carreg i bwyso ar y gofeb bresennol sy'n mesur dim mwy na 20" x 10". Os oes ymylfeini ar y bedd rhaid ei osod oddi fewn iddynt.

4 Ni chaniateir unrhyw ysgrifen ar gefn y gofeb oddigerth enw'r saer maen tuag at y gwaelod mewn llythrennau nad ydynt yn fwy na 1" o uchder neu gyda sticer berthnasol

5 Rhaid i unrhyw fâs blodau parhaol fod yn rhan o'r gofeb,

6 Ni chaniateir y defnydd o wydr, llestri, plastig. Gall y Cyngor gymryd y camau priodol i'w symud.

7 Ni chaniateir rhyddhau balŵns a llusernau na gosod balŵn, goleuadau solar, clychau gwynt neu unrhyw eitem sy'n rhyddhau golau neu sain. Ystyrir bod eitemau o'r fath yn cael effaith niweidiol ar gymeriad y mynwentydd neu ar y tawelwch a ddisgwylir gan bartïon angladd ac ymwelwyr.

8 Ni chaniateir palu'r tir na phlannu unrhyw blanhigyn ar fedd. Ni chaniateir gosod cerrig mân neu greu gerddi bach ar unrhyw fedd mewn mynwentydd lawnt.

9 Cyfrifoldeb y teulu yw clirio'r bedd o unrhyw flodau, fframiau blodau ayyb o fewn mis i'r gladdedigaeth.

10 Dylai cynrychiolwyr y cofebion eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da. Hysbysir pob cynrychiolydd (os yw'r manylion cyswllt yn wybodus) pan fo

angen atgyweirio cofeb, ac oni atgyweirir o fewn amser penodedig, gall y Cyngor weithredu i wneud y cofebion yn ddiogel. Mewn achosion o risg i'r cyhoedd, golyga hyn bod rhaid i'r Cyngor Cymuned weithredu heb roi rhybudd ymlaen llaw i'r teulu.

11 Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am unrhyw eitemau ychwanegol a osodir ar fedd. Cyfrifoldeb y teulu yw popeth a osodir ar y bedd. Mewn amgylchiadau lle rhagwelir perygl i'r cyhoedd, yna bydd y Cyngor yn cymryd camau priodol i adfer y sefyllfa.

Cyffredinol

1 Cedwir cofrestrau'r mynwentydd gan y Clerc. Gellir gweld y cofrestrau trwy drefniant o flaen llaw. Bydd ffi am ddarparu copïau.

2 Dim ond contractwyr swyddogol y Cyngor yn unig sydd â'r hawl i ddefnyddio chwynladdwr.

3 Ni chaniateir cŵn yn y mynwentydd oddigerth i gŵn tywys, cŵn cymorth neu gŵn clyw.

4 Ni chaniateir gwneud gwaith o unrhyw fath yn y fynwent heb ganiatâd y Cyngor a hysbysu'r Clerc.

5 Cyfrifoldeb holl fynychwyr y mynwentydd yw cludo eu hysbwriel oddi yno neu eu rhoi yn y biniau pwrpasol.

6 Dylai plant o dan 16 oed sy'n ymweld â'r mynwentydd fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

7 O dan y Ddeddf Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 gall unrhyw un sy'n –

- Creu twrw mewn mynwent
- Aflonyddu ar wasanaeth claddu
- Difrodi bedd neu flodau yn fwriadol
- Chwarae gemau mewn mynwent

fod yn destun achos cyfreithiol.

8 Bydd y Cyngor yn archwilio'r mynwentydd yn rheolaidd.

9 Cedwir hawl gan y Cyngor i adolygu'r Rheolau a'r Taliadau fel bo'r angen.